



Annwyl Huw,

Hoffwn estyn diolch i bob aelod staff ar draws y Cyngor, asiantaethau partner/sefydliadau allanol a gwirfoddolwyr sydd wedi gweithio'n ddiflino i helpu trigolion a busnesau yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'r golled a'r dioddefaint a achoswyd gan y coronafeirws wedi rhoi straen anhygoel ar ein dinasyddion ac, fel cynghorwyr lleol, rydym yn cydnabod a themlo hynny'n fawr.

Mae'r pandemig wedi dangos pa mor ddibynol yr ydym ar ein gilydd a'r hyn y gallwn ei gyflawni pan fyddwn yn gweithio gyda'n gilydd. Mae wedi dangos ein bod i gyd yn gryfach pan fydd ein gwasanaethau cyhoeddus ar eu cryfaf.

Nid oes modd mynd yn ôl i'r ffordd yr oedd pethau. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Caerdydd yn barod i chwarae ein rhan i gefnogi pob ymdrech i arwain ein dinas drwy effaith uniongyrchol a hirdymor y coronafeirws.

Mae Llywodraeth Leol ar ei orau ac yn cyflawni fwyaf pan fyddwn yn gweithio gyda'n gilydd. Fel cynghorwyr mae gennym oll ddyletswydd i weithredu fel cyfaill beirniadol er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'r Cyngor yn cael eu profi ac yn gweithio er budd trigolion a'r ddinas.

Wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio yng Nghymru – a gyda goblygiadau sylweddol i benderfyniadau a wneir gan Lywodraeth y DU – rydym yn herio'r weinyddiaeth i edrych ar ffyrdd i'n galluogi ni ar y cyd i lunio ein gweledigaeth a'n trywydd ein hunain drwy'r pandemig a thu hwnt.

Rydym ar gychwyn moment tyngedfennol; Mae gennym un cyfle i gyflawni newid ystyrion ar gyfer y nifer fwyaf o bobl yn ein dinas ac ar ein huchelgais cyffredin ar gyfer Caerdydd.

Ynghlwm â'r llythyr hwn mae nifer o flaenoriaethau a chwestiynau y credwn a fydd yn ein helpu i greu'r newid angenrheidiol i roi mwy ymdeimlad o reolaeth i bobl yng Nghaerdydd dros eu bywydau, mwy o hyder wrth i ni fynd tu hwnt i'r cyfnod hwn, a mwy o obaith ar gyfer y dyfodol. Efallai y bydd rhywfaint o hyn yn ymddangos yn amlwg, neu beth mae'r weinyddiaeth yn credu y mae'n ei gyflawni, ond dyma'n profiad ar y cyd ni fel grŵp cyngor.

Mae hwn yn cael ei hanfon atoch fel llythyr agored. Yr wyf fi, fel fy nghyd-Aelodau, wedi ymrwymo i arddel agwedd agored, onest ac adeiladol at ein cyfrifoldeb fel gwrthblaid. Rydym hefyd yn credu'n angerddol y gallwn, drwy ymgysylltu'n wirioneddol â dinasyddion a thrwy rannu'r pŵer sydd gennym fel arweinwyr yn ein cymunedau, gyflawni mwy gyda'n gilydd.

Byddem yn croesawu'r cyfle i ymhelaethu ar unrhyw rai o'n hawgrymiadau ac edrychwn ymlaen at weithio gyda chi a chydweithwyr eraill.

Yn gywir,

Y Cynghorydd Rhys Taylor, arweinydd grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol
Y Cynghorydd Emma Sandrey, Dirprwy Arweinydd grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol

Y Cynghorydd Joe Carter, y Cynghorydd Joe Boyle, y Cynghorydd Bablin Molik, y Cynghorydd Ashley Wood, y cynghorydd Nigel Howells, y Cynghorydd Asghar Ali, y Cyng Robert Hopins, y Cynghorydd Rodney Berman, y Cyng Daniel Naughton



ATODIAD

Nid yw'n opsiwn mynd yn ôl i'r ffordd yr oedd pethau. Isod, rydym wedi nodi rhai mentrau allweddol, ffyrdd o weithio, a dyheadau ar gyfer ein dinas yn dilyn COVID.

- 1. Ymgysylltu â dinasyddion, gan gynnwys creu Cynulliad Dinasyddion**
- 2. Cydbwysu anghenion economaidd â'n datganiad o argyfwng hinsawdd**
- 3. Sicrhau atebolrwydd ddemocratiaidd gadarn**

Dinasyddiaeth

Rydym yn argymhell dull newydd o ymgysylltu â dinasyddion gan greu'r hyder sydd ei angen i'n harwain drwy'r pandemig hwn.

Rydym yn argymhell creu Cynulliad Dinasyddion, neu strwythur tebyg, a fyddai'n gyfrifol am ateb cwestiynau a heriau allweddol ar ddyfodol ein dinas.

Cyfathrebu

Wrth i ni fynd tu hwnt i'r cyfyngiadau, mae angen sicrwydd ac eglurder ar drigolion ynghylch yr hyn y mae'r newidiadau hynny'n ei olygu i'n gwasanaethau a'u bywydau bob dydd. Rydym yn pryderu bod gorddibyniaeth ar gyfathrebu digidol yn peri risg y bydd nifer sylweddol o breswylwyr heb fynediad at wybodaeth am newidiadau i wasanaethau. Mae risgiau ynghlwm wrth hyn yn enwedig i rhai sy'n fwyaf bregus i'r firws pan fydd cyfyngiadau yn cael eu codi.

Byddem yn argymhell ymestyn yr amrywiaeth o dulliau cyfathrebu yn ôl anghenion trigolion.

Democratiaeth

Mae craffu a herio cadarn yn elfen allweddol o ddemocratiaeth iach. Mae gan bob cynghorydd ar draws pob plaid ddyhead cyffredin ar gyfer ein trigolion a'n dinas. Mae craffu cadarn yn arwain at benderfyniadau gwell.

Gan gydnabod pryderon am yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer craffu, rhaid i ni ddyfeisio dull ar frys a fyddai'n caniatáu i'r swyddogaeth graffu weithredu fel arfer, i'r graddau y mae adnoddau a materion ymarferol yn caniatáu.

Cymunedau

Petai pobl mewn unrhyw amheuaeth, mae'n amlwg ein bod ni oll yn gryfach pan fydd ein gwasanaethau cyhoeddus yn gryfach. Mae gan Lywodraeth Leol swydd hollbwysig o weithio i adeiladu a meithrin y rhwydweithiau sydd ei hangen i bobl a'n cymunedau llwyddo. Mae hon yn foment dyngedfennol mewn cyfnod lle gallwn ddewis gwneud pethau'n wahanol, gan fanteisio ar y partneriaethau newydd a chryfach hynny a defnyddio'r arloesedd a'r creadigrwydd ar draws ein dinas a'n rhanbarth.

Rhaid bod datblygu cadernid a dulliau gweithredu cynaliadwy fod yn ffocws gwirioneddol wrth symud ymlaen.

Amgylchedd



Ers dechrau'r achosion o coronafeirws, mae gan fwy a mwy o bobl ddealltwriaeth well o werth ein hamgylchedd – yn enwedig o ddinas heb lefelau gwenwynig o lygredd aer gydag amgylchedd mwy naturiol.

Mae hyn yn cynnwys sicrhau cynaliadwyedd ein rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus, mesurau ar fyrder i wella cerdded a beicio, cydbwysu a mesur cyfyngiadau defnyddio ceir. Dylid ailystyried sut rydym yn rheoli ein mannau gwyrdd sy'n diogelu a meithrin bioamrywiaeth, gan gydbwysu'r angen am ddigon o fannau gwyrdd agored at ddibenion hamdden ag anghenion byd natur.

Economi

Mae effeithiau dirwasgiad economaidd yn creu heriau sylweddol i'n dinas a'n trigolion.

Rhaid i gynllun adfer economaidd y cyngor a'r rhaglen datblygu economaidd ganolbwyntio ar ein rhwydwaith sylweddol o fusnesau bach ac annibynnol, cynaliadwyedd a gwydnwch yr economi leol, a chydbwysu adferiad economaidd â'r datganiad o argyfwng hinsawdd a wneir gan y cyngor hwn.

Diogelwch

Bydd creu mannau cyhoeddus y mae pobl yn teimlo'n ddiogel ynddnyt ac yn hyderus i'w defnyddio yn hanfodol er mwyn sicrhau, wrth inni fynd tu hwnt i'r cyfyngiadau, y gall pobl fyw eu bywydau bob dydd fel sy'n angenrheidiol.

Rydym yn arbennig o bryderus bod yr ymagwedd hyd yma yn canolbwyntio'n fawr ar ganol y ddinas. Dylid gwneud hyn yn strategol a'i gyfathrebu mewn ffordd sy'n rhoi'r hyder sydd ei hangen i drigolion, busnesau, ysgolion ac eraill yr hyder wrth i gyfyngiadau gael eu codi.